Cymru

Eich atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser

CANCER RESEARCH UK

Gyda'n gilydd, wnawn guro canser

Beth yw atgyfeiriad canser brys a amheuir?

Mae eich meddyg teulu wedi trefnu i chi gael profion neu weld meddyg ysbyty (arbenigwr). Mae hyn i ymchwilio i'ch symptomau, darganfod beth sy'n bod ac a allai fod yn ganser. Byddwch yn cael y profion hyn cyn gynted â phosib. Ni fydd gan y mwyafrif o bobl ganser. Ond os oes gennych ganser, mae diagnosis a thriniaeth gynnar yn bwysig.

Mae mwy na 9 o bob 10 o bobl a atgyfeirir fel hyn yn cael y canlyniad NAD oes ganddynt ganser.



Pa mor gyflym y caf fy ngweld?

Byddwch yn cael eich apwyntiad cyn gynted â phosib. Bydd hyn fel arfer o fewn pythefnos, ond oherwydd COVID-19, efallai y bydd rhaid i chi aros yn hirach. Efallai y bydd eich apwyntiad cyntaf dros y ffôn, trwy alwad fideo neu yn yr ysbyty. Mae staff yr ysbyty wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn lle diogel i ymweld ag ef.

Gofynnwch i'ch meddyg teulu pryd rydych chi'n debygol o gael apwyntiad.

1 Derbyn atgyfeiriad brys

- Efallai y cewch eich apwyntiad dros y ffôn neu drwy'r post neu e-bost. Os cewch alwad ffôn, ni fydd y rhif yn ymddangos. Atebwch y ffôn, os gwelwch yn dda.
- **Mae'n bwysig iawn eich bod yn mynychu'ch holl apwyntiadau a'ch profion.** Os na allwch ddod, cysylltwch â'r ysbyty cyn gynted ag y gallwch er mwyn aildrefnu.
- Os bydd eich symptomau'n gwaethygu, dywedwch wrth eich meddyg teulu.

Gair i Gall
- Gwiriwch fod gan eich meddyg teulu eich manylion cyswllt presennol.
- Os na chewch fanylion eich apwyntiad o fewn 2 wythnos, cysylltwch â'ch meddygfa. Dywedwch wrthynt ei fod yn atgyfeiriad canser brys a amheuir

2 Mynd i'ch apwyntiad

- Bydd manylion yr apwyntiad yn cynnwys yr amser, ble i fynd, pwy fyddwch yn ei weld ac unrhyw beth sydd angen i chi ei wneud i baratoi.
- Efallai y cewch eich anfon yn syth am brofion, neu efallai y byddwch yn siarad ag arbenigwr yn gyntaf.
- Gallai ysgrifennu cwestiynau ymlaen llaw fod o gymorth.

Gair i Gall
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod i ble rydych chi'n mynd.
- Ystyriwch drefnu cludiant, amser i ffwrdd o'r gwaith neu ofal plant ar gyfer diwrnod eich apwyntiad.
- Gwiriwch a allwch fynd ag aelod o'r teulu neu ffrind gyda chi am gefnogaeth.
- Caniatewch amser ychwanegol rhag ofn y bydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl

3 Cael profion

- Dylech dderbyn gwybodaeth am eich profion ac unrhyw baratoadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud.
- Efallai y bydd angen i chi gael mwy nag un prawf.

Gair i Gall
- Gofynnwch sut y byddwch chi'n cael eich canlyniadau, faint o amser y bydd yn ei gymryd a gwnewch nodyn o hyn.
- Fel rheol ni fydd y person sy'n eich profi yn gallu dweud wrthych beth yw eich canlyniadau. Efallai y bydd rhaid i chi aros i siarad â'ch arbenigwr.

Mae gwybodaeth am wahanol fathau o brofion i'w gael ar www.cruk.org/urgentreferrals

4 Cael canlyniadau

- Bydd y meddyg sy'n trefnu'ch prawf yn egluro'ch canlyniadau. Dyma'ch arbenigwr chi fel arfer.
- Efallai y bydd angen i chi gael profion pellach.
- Yng Nghymru, y nod yw cael canlyniadau eich profion o fewn 28 diwrnod ar ôl eich atgyfeiriad gan feddyg teulu. Mae'r targed hwn yn rhan o'r Llwybr Canser Sengl.

Gair i Gall
- Os ydych wedi bod yn aros yn hwy na'r disgwyl am eich canlyniadau, cysylltwch ag ysgrifennydd eich arbenigwr.
- Os nad oes gennych fanylion cyswllt, gofynnwch i'ch meddygfa am gyngor.

Peidiwch ag ofni gofyn cwestiynau.

Cymru

Eich atgyfeiriad brys oherwydd amheuaeth o ganser

CANCER RESEARCH UK

Gyda'n gilydd, wnawn guro canser

Pa gwestiynau allwn i eu gofyn?

Weithiau mae'n anodd gwybod beth i'w ofyn i'ch arbenigwr.

Dyma ychydig o syniadau a allai ei gwneud yn haws:

- Os bydd fy symptomau'n gwaethygu, â phwy ddylwn i gysylltu?
- A ddylwn i newid y meddyginiaethau rwy'n eu cymryd?
- Pa brofion y bydd angen i mi eu cael?
- Faint o amser fydd y profion yn ei gymryd?
- Sut fydd y profion yn teimlo?
- A fydd y profion yn achosi unrhyw sgîl-effeithiau?
- Faint o amser fydd hi'n ei gymryd i gael canlyniadau fy mhrofion?
- Pwy fydd yn rhoi canlyniadau'r profion i mi?
- Os oes gen i gwestiynau ar ôl yr apwyntiad, pwy ddylwn ei holi?

Beth fydd yn digwydd os oes gen i ganser?

Rydym yn gwybod bod hwn yn gyfnod pryderus ac anodd. Mae help a chefnogaeth ar gael. Bydd gennych rif cyswllt ar gyfer eich gweithiwr allweddol. Mae ganddynt rôl bwysig yn eich gofal a'ch triniaeth.

Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i ganser?

Os na chewch ddiagnosis o ganser, mae'n dal yn bwysig i chi dalu sylw i'ch corff. Dywedwch wrth eich meddyg teulu os byddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau newydd ac anarferol neu os na fydd eich symptomau'n gwella.

Mae dychryn iechyd yn gwneud i rai pobl feddwl am wella eu hiechyd yn gyffredinol, er enghraifft trwy gadw pwysau iach neu roi'r gorau i smygu.

Mae'r pethau hyn yn lleihau'r risg o ganser. Gallwch hefyd ystyried sgrinio pan gewch eich gwahodd. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.cruk.org/health.

Nodiadau

Efallai y bydd yn gymorth cadw'ch gwaith papur gyda'i gilydd mewn un lle a gwneud nodyn o'ch rhif GIG a'ch rhif ysbyty.

Gallwch ddefnyddio'r lle isod i ychwanegu rhifau cyswllt neu fanylion am eich profion a'ch apwyntiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am atgyfeiriadau brys ar cruk.org/urgentreferrals

Amdan Cancer Research UK

Mae Cancer Research UK yn arloesi mewn ymchwil sy'n achub bywydau i ddod â'r dydd yn nes pan fydd modd gwella pob canser. O'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr i'n gwyddonwyr, meddygon a nyrsys, rydym i gyd yma i achub mwy o fywydau ac i atal, rheoli a gwella pob canser. Os hoffech gefnogi ein gwaith, ffoniwch 0300 123 1022 neu ewch i www.cruk.org

©Cancer Research UK [Ymchwil Canser y DU] (2021).
Cyf: UR02_TestunynUnig
Chwefror 2021. Disgwylir iddo gael ei adolygu erbyn Chwefror 2023.
Mae Cancer Research UK [Ymchwil Canser y DU] yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089464), yr Alban (SC041666), Ynys Manaw (1103) a Jersey (247).

Creuwr Gwybodaeth Dibynadwy
Fforwm Gwybodaeth i Gleifion